# Y PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL

**27 Gorffennaf 2016**

Yn bresennol: Mr A Archer, Mrs G Hayward, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd L Jenkins, y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd R Owens a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12.30pm – 2.00pm)

**1. Penodi Cadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i benodi'r Cynghorydd M Williams yn Gadeirydd am y flwyddyn.

**2. Penodi Is-gadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i benodi Mr A Archer yn Is-gadeirydd am y flwyddyn.

**3. Ymddiheuriadau**
Daeth ymddiheuriadau i law am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr D Ellis a'r Cynghorydd DWM Rees. Dywedodd y Cynghorydd RM Lewis, y Cynghorydd M James a Mrs G Hayward y byddai'n rhaid iddynt adael am 1.30pm.

**4. Datgelu buddiant**
Datgelodd Mr A Archer fuddiant personol, ond nid un niweidiol, yn eitem 9 'ISA260 Adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu', ond arhosodd yn yr ystafell a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016.

**6. Y Grŵp Iechyd a Diogelwch: adroddiad am y cyfarfod**
Trafododd yr Aelodau adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2016.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad am gyfarfod y Grŵp Iechyd a Diogelwch a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2016.

7. **Croeso**
Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Robin Pritchard, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Gateway Assure, archwilwyr mewnol yr Awdurdod, a Mr Deryck Evans, Rheolwr Archwilio Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, i'r cyfarfod.

8. **Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2016**
Soniwyd fod y Cynllun Archwilio a luniwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi gwaith arfaethedig y Swyddfa o ran archwilio'r Awdurdod yn ariannol ac o ran ei berfformiad. Byddai hynny'n sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud i fod yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol wrth ddefnyddio adnoddau. Fodd bynnag, wrth gyflwyno Cynllun 2016, cydnabu'r Rheolwr Archwilio Ariannol fod yr archwiliad ariannol bron wedi'i gwblhau, oherwydd fel'i cynhaliwyd yn ddiweddar. Byddai'r archwiliad o berfformiad yn cael ei gynnal yn nes ymlaen yn y flwyddyn, a byddai'n canolbwyntio ar adolygiad o'r trefniadau llywodraethu dros gyfnod o bedair blynedd. Byddai'r archwiliad yn cael ei gynnal yn yr un modd yn y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol.

O ran y ffioedd Archwilio, dywedodd y Rheolwr ei fod yn ceisio gwneud yr archwiliad mor effeithlon â phosibl ac roedd y ffioedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Felly, roedd y ffi am archwiliad ariannol 2015/16 wedi gostwng yn sgil adolygiad, ac ni fyddai'n codi yn 2016/17. Yn y gorffennol, roedd grant Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y ffi am yr archwiliad o berfformiad, ond roedd y grant hwnnw bellach wedi dod i ben. Felly, byddai'n rhaid i'r Awdurdod dalu'r gost lawn yn 2016/17.

Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb yn y gwaith archwilio perfformiad a oedd yn cael ei wneud ar draws y tri Pharc Cenedlaethol, ac roeddynt yn croesawu'r gostyngiad yn y ffioedd archwilio ariannol, gan obeithio fod hynny'n adlewyrchu'r ffaith nad Awdurdod Lleol yw'r Parciau. Atebodd y Rheolwr Archwilio Ariannol fod y dulliau gweithredu yn gwahaniaethu yn ôl maint sefydliadau, ond roedd safonau penodol yr oedd yn rhaid cydymffurfio â hwy ni waeth beth oedd maint y sefydliad.

**NODWYD.**

9. **ISA260 Adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu**
Soniwyd fod yr adroddiad ISA260 yn mynegi barn ynghylch a oedd y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2016, a'i incwm a gwariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Wrth wneud yr archwiliad, mabwysiadodd Swyddfa Archwilio Cymru'r cydsyniad o berthnasedd, sef ceisio canfod camddatganiadau perthnasol a allai gamarwain rhywun a ddarllenai'r cyfrifon.

Yr oedd yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio di-amod ar y datganiadau ariannol pan fyddai llythyr sylwadau wedi'i ddarparu fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Yna, byddai'r adroddiad ISA260 dwyieithog terfynol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o Awdurdod y Parc Cenedlaethol ym mis Awst.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Ariannol fod y cyfnod ar gyfer paratoi'r cyfrifon wedi'i ddwyn ymlaen eleni, ac roeddynt yn nwylo Swyddfa Archwilio Cymru bythefnos cyn y dyddiad cau heb effeithio ar eu hansawdd; canmolodd y Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith. Ni chanfuwyd unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol nad oedd wedi'u cywiro, ond roedd un gwelliant perthnasol a nifer o welliannau amherthnasol a oedd wedi'u cywiro gan y rheolwyr. Roedd y gwelliant perthnasol yn ymwneud â gostyngiad yng ngwerth eiddo, offeriant a chyfarpar oherwydd gwall ym mhroses brisio cyfnod blaenorol, gan fod y prisiwr, sef Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi cynnwys costau ariannol wrth brisio asedau na ddylid bod wedi'u cynnwys. Bu ychydig o addasiadau yn niwyg y cyfrifon hefyd. Nid oedd pryderon ynghylch agweddau meintiol y cyfrifon a diolchodd y Rheolwr i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu cymorth.

Holodd y Cadeirydd am y llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad yn cwestiynu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli. Esboniodd y Rheolwr Archwilio fod yn rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru gael cadarnhad ysgrifenedig, er enghraifft, fod gan yr Awdurdod bolisi gwrth-dwyll a llwgrwobrwyo a bod yr Awdurdod yn cael adroddiadau am unrhyw risgiau posibl. Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod Polisi Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo yr Awdurdod wedi'i ddiweddaru yn 2015 ac wedi'i gyflwyno i'r Aelodau i'w gymeradwyo. Nododd hefyd fod yr ymgais i dwyllo mewn e-bost yr honnwyd ei fod oddi wrth y Prif Weithredwr, wedi'i atal a bod y Pwyllgor wedi cael adroddiad llafar am y digwyddiad.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr Adroddiad ISA260.

**10. Datganiad Drafft o Gyfrifon 2015/16**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod y Datganiad Drafft o Gyfrifon wedi'i gyhoeddi ar 14 Gorffennaf a'i fod ar gael i'w archwilio am 20 diwrnod. Felly, er gwybodaeth yn unig yr oedd ger bron y Pwyllgor oherwydd byddai'n cael ei gyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 10 Awst i'w gymeradwyo.

Er bod y cyfrifon eu hunain yn faith, gellid cael y wybodaeth allweddol yng nghorff yr adroddiad a'r crynodeb o'r cyfrifon. Arweiniodd y Rheolwr Cyfrifon yr Aelodau drwy'r adroddiad, gan nodi er enghraifft, y lleihad yn Grant y Parc Cenedlaethol a'r cynnydd yn y refeniw o feysydd parcio a

ffioedd mynediad o dan y pennawd “O ble y daeth yr arian”, a’r gostyngiad mewn cyflogau a chyflenwadau, gwasanaethau a grantiau (oherwydd bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed wedi dod i ben) o dan “Sut y gwariwyd y arian”. Roedd y cynnydd mewn costau a oedd yn gysylltiedig â safleoedd o dan y pennawd hwnnw yn deillio o orfod adnewyddu rhai peiriannau talu ac arddangos. Roedd y crynodeb o’r cyfrif refeniw yn dangos costau net o £4.4 miliwn am wasanaethau, a bod £422,000 wedi’i arbed yn erbyn y gyllideb am y flwyddyn; roedd y rheswm am yr amrywiadau i’w weld yn yr adroddiad. Ar ôl yr addasiadau heblaw arian parod a throsglwyddiadau i gronfeydd wrth gefn, y gwarged net am y flwyddyn oedd £192,000.

Elfen derfynol y cyfrifon oedd y rhaglen gyfalaf a oedd wedi gostwng yn sylweddol ers y llynedd pan gynhaliwyd prosiect Gwreiddiau yng Nghastell Henllys. Nid oedd y crynodeb o’r fantolen yn dangos unrhyw symud arwyddocaol heblaw i’r cronfeydd arian parod.

Roedd yr Aelodau yn falch o’r ffordd yr oedd y gostyngiad yn y grant refeniw craidd wedi’i reoli, ond mynegwyd peth pryder am effaith bosibl yr arbedion effeithlonrwydd ar ganlyniadau’r Awdurdod, er na nodwyd yr un. Awgrymwyd y dylai’r cynnydd yn yr adnoddau gael ei wario ar gynnal a gwella gallu’r staff o fewn gweithlu a oedd yn crebachu.

**NODWYD.**

[Ymddiheurodd y Cynghorydd M James ac RM Lewis a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn.]

**11. Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2015-16**

Cyflwynodd y Rheolwr Personél, ynghyd â Rheolwr Wardeiniaid Ardal y Gorllewin, yr adroddiad fel aelodau o’r Grŵp Iechyd a Diogelwch. Roedd yr adroddiad mewn dwy ran. Yn Rhan 1 roedd adroddiad blynyddol am 2015-16 o ran materion a gweithgareddau a oedd yn ymwneud â rheoli iechyd a diogelwch a’r arferion perthnasol yn yr Awdurdod. Yn Rhan 2 roedd adroddiad am berfformiad ar gyfer 2015-16 a oedd yn nodi’r blaenoriaethau a’r cynlluniau o ran risg ar gyfer 2016-17.

Yn gynwysedig roedd y camau a gymerwyd o ran y blaenoriaethau risg ar gyfer 2015-16, data am ddamweiniau a digwyddiadau a lefelau absenoldeb salwch. Byddai rhai o’r tueddiadau a welwyd yn y rhain yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn o ran gwersi a ddysgwyd ac i gasglu gwybodaeth gefndir i weld a oedd unrhyw feysydd iechyd y gellid canolbwyntio arnynt.

Gan edrych ar y blaenoriaethau risg ar gyfer 2016-17, byddai’r gwaith yn canolbwyntio ar ymddygiad eisteddog, sŵn, ffitrwydd i weithio gydol oes,

a sicrhau bod gweithwyr yn cymryd cyfrifoldeb personol a bod ganddynt ymwybyddiaeth o risg ar lefel unigolion. Nodwyd hefyd y dangosyddion ar gyfer mesur perfformiad yn ystod y flwyddyn.

Ar ôl gofyn nifer o gwestiynau, diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am aroddiad diddorol.

[Ymddiheurodd Mrs G Hayward a gadawodd y cyfarfod cyn yr eitem ganlynol.]

**12. Adroddiad am Berfformiad am y Flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Rheolwr Cyllid fod strwythur Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2016/17 yn adlewyrchu strwythur y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gyda saith nod llesiant. Hefyd, addaswyd yr adroddiad perfformiad i ddilyn yr amcanion hyn, a chynhwyswyd adran ychwanegol a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu.

Yn anffodus, gan mai dim ond rhai wythnosau o'r flwyddyn ariannol newydd a oedd wedi mynd heibio, nid oedd llawer o ddata ar gael, ac roedd nifer o'r mesurau a'r camau yn yr adroddiad yn aros am ddata, ond yn y rhan fwyaf o achosion roedd gwaith eisoes wedi dechrau ac roedd y cynnydd yn unol â'r disgwyl yr adeg hon o'r flwyddyn.

Soniwyd y byddai Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfio yn dechrau gweithio yn yr Awdurdod ar 1 Awst, ac mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor Adolygu Gweithredol, byddai'n edrych ar strwythur yr adroddiad maes o law.

**PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad am berfformiad**.**

**13. Y Gofrestr Risg**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid y gofrestr risg ddiweddaraf a adolygwyd yn ddiweddar gan Dimau Rheoli ac Arwain yr Awdurdod a oedd wedi nodi'r cynnydd a'r newidiadau. Yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol y ddiweddar, roedd risgiau yn gysylliedig â'r cytundeb prydles â Choed Cymru ynghylch gweithdy Cilrhedyn, a goblygiadau Brexit, nad oedd yn hysbys ar hyn o bryd, wedi'u hychwanegu at y gofrestr. Nid oedd unrhyw risgiau wedi'u tynnu oddi arni.

Nid oedd unrhyw risg wedi newid yn ddigonol i addasu lefel y risg, ond yn dilyn sylwadau a wnaed mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor, roedd y targed ar gyfer risg 20 (methiant TG) wedi gostwng i oren. Ers yr adroddiad diwethaf, roedd tri risg wedi gostwng ychydig, a nodir gan y saeth tuag i lawr, ond nid oedd hynny'n ddigon i newid lliw y lefel o risg.

**NODWYD.**

**14. Perfformiad o ran y Gyllideb**

Esboniodd y Rheolwr Cyllid nad oedd, oherwydd ei waith yn cau cyfrifon yr Awdurdod, wedi llunio adroddiad am berfformiad y gyllideb yn chwarter cyntaf y flwyddyn. Fodd bynnag, dosbarthodd dabl yn dangos incwm y chwarter cyntaf o gymharu â'r gyllideb a'r blynyddoedd blaenorol o ran gwerthu nwyddau, ffioedd mynediad ac incwm o feysydd parcio. Roedd hyn yn dangos bod y gwerthiant o fewn y gyllideb a bod y ffioedd mynediad a'r incwm o feysydd parcio ar gynnydd, er bod yr incwm o feysydd parcio yn llai na'r chwarter blaenorol. Ond nodwyd fod blwyddyn 2015/16 yn cynnwys dau Basg.

Gofynnodd yr Aelodau am yr amrywiaeth sylweddol yn y chwarter ar gyfer Maes Parcio Poppit, ac atebodd y swyddog mai'r rheswm am hyn oedd nad oedd y peiriant talu ac arddangos yn gweithio'n iawn.

**NODWYD.**

**15. Dirprwyo materion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i'w dirprwyo i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus.